COFNOD O BENDERFYNIAD CYFARFOD O'R CABINET A GYNHALIWYD HYBRID IN THE COUNCIL CHAMBER - CIVIC OFFICES, ANGEL STREET, BRIDGEND, CF31 4WB AR DYDD MAWRTH, 24 MEHEFIN 2025 14:30

Presennol

Y Cynghorydd JC Spanswick – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| N Farr | J Gebbie | HM Williams | P Davies |
| M J Evans | M Jones | | |

Presennol – O Bell

E L P Caparros

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Dim

Datganiadau o Ddiddordeb

Dim

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Anya Richards | Rheolwr Grŵp - Cyfathrebu a Materion Cyhoeddus |
| Oscar Roberts | Prentis Gweinyddol Busnes - Gwasanaethau Democrataidd |
| Carys Lord | Prif Swyddog - Cyllid, Perfformiad a Newid |
| Claire Marchant | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles |
| Janine Nightingale | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau |
| Kelly Watson | Prif Swyddog – Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Rheoleiddio |
| Lindsay Harvey | Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Chymorth i Deuluoedd |
| Michael Pitman | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd – Pwyllgorau |

## 485. Cymeradwyo Cofnodion

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | PENDERFYNWYD: Cymeradwyo cofnodion 13/05/2025 fel cofnod gwir a chywir. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 24 Mehefin 2025 |

## 486. Polisi yn erbyn Osgoi Trethi

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | Cyflwynodd y Prif Swyddog Cyllid, Tai a Newid adroddiad oedd yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet i'r Polisi yn erbyn Osgoi Trethi oedd wedi cael ei ddiweddaru.<br><br>Esboniodd fod Strategaeth a Fframwaith Twyll 2022/23 i 2024/25 wedi cael eu hadolygu gan y Tîm Ymchwilio i Dwyll, ochr yn ochr â swyddogion o Archwilio Mewnol a Chyllid, a bod nifer o ddiwygiadau wedi cael eu gwneud i sicrhau bod y ddogfen yn gyfredol i adlewyrchu newidiadau fel yr eglurwyd yn adran 3 yr adroddiad.<br><br>Gofynnodd y Dirprwy Arweinydd am eglurder ar y ffordd y mae awdurdodau tân yn sicrhau eu bod yn mabwysiadu yr un polisi yn erbyn osgoi trethi. Atebodd y Prif Swyddog Cyllid, Tai a Newid y disgwylid i awdurdodau tân fel cyrff perthnasol, gael eu polisïau a'u gweithdrefnau eu hunain.<br><br>PENDERFYNWYD: Bod y Cabinet yn cymeradwyo'r Polisi yn erbyn Osgoi Trethi oedd wedi cael ei ddiweddaru. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 24 Mehefin 2025 |

## 487. Strategaeth a Fframwaith Twyll 2025-26 i 2027-28

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | Cyflwynodd y Prif Swyddog Cyllid, Tai a Newid adroddiad oedd yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet i Strategaeth a Fframwaith Twyll 2025/26 i 2027/28, oedd yn gysylltiedig yn Atodiad A. |

| | |
|---|---|
| | Esboniodd fod twyll a chamgymeriadau yn heriau sylweddol i awdurdodau lleol, gyda'r gost i drethdalwyr y DU rhwng £55 biliwn ac £81 biliwn yn 2023-2024. Nododd hefyd fod troseddau twyll yng Nghymru a Lloegr wedi cynyddu o 19% yn y flwyddyn yn diweddu Medi 2024.<br><br>Roedd y strategaeth yn egluro dull dim goddefgarwch y Cyngor tuag at dwyll a llygredd ac amlinellodd y trefniadau oedd yn eu lle i atal, darganfod ac ymchwilio i dwyll.<br><br>Holodd yr Arweinydd am y math o dwyll a allai fod yn digwydd mewn ysgolion. Rhoddwyd enghraifft o glerc ysgol oedd wedi cael ei charcharu am ddwyn symiau sylweddol o arian oddi ar Gymdeithas Rieni Athrawon a defnyddio cerdyn credyd yr ysgol i dalu am nwyddau personol, gan egluro nad ysgol ym Mhen-y-bont oedd hon ond ei bod yn dangos y problemau amrywiol sy'n codi yn genedlaethol.<br><br>PENDERFYNWYD: Bod y Cabinet yn cymeradwyo'r Strategaeth a Fframwaith Twyll 2025/26 i 2027/28, oedd yn gysylltiedig yn Atodiad A. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 24 Mehefin 2025 |

## 488. Alldro Cyllideb Refeniw 2024-25

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | Cyflwynodd y Prif Swyddog Cyllid, Tai a Newid adroddiad oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cabinet am berfformiad ariannol refeniw'r Cyngor am y flwyddyn ddaeth i ben 31 Mawrth 2025. Roedd yr adroddiad yn tynnu sylw at sefyllfa alldro derfynol o £300,000 o danwariant.<br><br>Holodd Aelod y Cabinet dros Adfywiad, Datblygiad Economaidd a Thai ynghylch y broses oedd yn ei lle ar gyfer swyddogion pan oeddent yn dod yn ymwybodol o orwariant posibl. Eglurodd y Prif Swyddog Cyllid, Tai a Newid fod pob Prif Swyddog yn gyfrifol am reoli ei gyllideb a bod prosesau monitro rheolaidd yn eu lle i ganfod ac ymdrin ag unrhyw broblemau posibl.<br><br>Gofynnodd Aelod y Cabinet dros Adnoddau a oedd problem diffygion SEN, lle roedd rhai cynghorau yn Lloegr yn cael eu cadw oddi ar y llyfrau, yn wir am Gymru. Cadarnhaodd y Prif Swyddog Cyllid, Tai a Newid nad oedd y cynllun hwn yn weithredol yng Nghymru a bod yr holl wariant SEN yn weladwy yn eu hadroddiadau.<br><br>PENDERFYNWYD: Bod y Cabinet yn nodi'r sefyllfa alldro derfynol am 2024-25. |

| | |
|---|---|
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 24 Mehefin 2025 |

**489. Cynrychiolaeth ar Gyrff Allanol, Cydbwyllgorau a Phwyllgorau'r Cabinet**

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | Cyflwynodd y Prif Swyddog, Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddio, AD a Pholisi Corfforaethol adroddiad oedd yn gofyn am gymeradwyaeth ar gyfer penodiadau Aelodau i gydbwyllgorau, pwyllgorau'r cabinet, ac enwebiadau i gyrff allanol.<br><br>Dywedodd fod y rhestr lawn yn Atodiad 1 i'r adroddiad.<br><br>Gofynnodd y Dirprwy Arweinydd am welliant i symud Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol o'i swydd ar y Panel Mabwysiadu a'r Panel Maethu gan ddatgan ei bod hi'n credu nad oedd yn briodol i unigolyn a benodwyd yn wleidyddol fod yn rhan o wneud penderfyniadau ynglŷn ag addasrwydd gofalwyr maeth neu fabwysiadwyr posibl. Dadleuai y dylai penderfyniadau o'r fath gael eu gwneud gan y rheiny oedd â'r hyfforddiant a'r cymwysterau gwaith cymdeithasol proffesiynol perthnasol.<br><br>PENDERFYNWYD: Bod y Cabinet yn penodi'r nifer gofynnol o Aelodau i'r Cydbwyllgorau, Pwyllgorau'r Cabinet a chyrff allanol eraill fel y'u rhestrwyd yn Atodiad 1, yn amodol ar y newid canlynol a gytunwyd gan y Cabinet:<br><br>Dylid tynnu'r Panel Mabwysiadu a'r Panel Maethu o'r adroddiad oherwydd yr hyfforddiant oedd ei angen ar gyfer y swyddi hyn. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 24 Mehefin 2025 |

**490. Rhaglen Moderneiddio Ysgolion - Ehangu Ysgol Gymraeg Bro Ogwr –
Newid I'r Dyddiad Gweithredu**

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | Cyflwynodd Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg, y Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc adroddiad oedd yn gofyn am gymeradwyaeth i addasu'r dyddiad gweithredu ar gyfer Ysgol newydd Bro Ogwr i fis Medi 2027. Amlinellai'r adroddiad y rhesymau dros yr oedi, oedd yn cynnwys problemau ecolegol ar y safle arfaethedig a chodiadau sylweddol mewn costau. |

| | |
|---|---|
| | Mynegodd Aelod y Cabinet dros Adnoddau bryder ynghylch y costau cynyddol a holodd ynghylch y canlyniadau posibl i'r awdurdod. Esboniodd Rheolwr y Tîm Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu fod syrfëwr meintiau siartredig wedi darparu amcangyfrifon o'r costau a'u bod yn credu y byddai'r gyllideb a osodwyd yn ddigonol i gyflawni'r cynllun erbyn mis Medi 2027.<br><br>PENDERFYNWYD: bod y Cabinet yn addasu dyddiad gweithredu Ysgol newydd Bro Ogwr i fis Medi 2027. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 24 Mehefin 2025 |

## 491. Eitemau Brys

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | Nid oedd dim eitemau brys |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 24 Mehefin 2025 |

## 492. Gwahardd y Cyhoedd

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | PENDERFYNWYD:<br>Nid yw'r eitemau canlynol i gael eu cyhoeddi gan eu bod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 12 o Ran 4 a/neu Baragraff 21 o Ran 5 o Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth)(Amrywiad)(Cymru) 2007.<br><br>Yn dilyn cymhwyso prawf budd y cyhoedd, penderfynodd y pwyllgor, yn unol â'r Ddeddf, ystyried yr eitemau hyn yn breifat, gyda'r cyhoedd yn cael eu heithrio o'r cyfarfod yn ystod ystyriaeth o'r fath. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 24 Mehefin 2025 |

## 493. Rhaglen Moderneiddio Ysgolion – Ysgolion Cynradd Gorllewin Pen-y-bont ar Ogwr

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | Roedd y penderfyniad hwn wedi cael ei eithrio. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 24 Mehefin 2025 |

## 494. Rhaglen Moderneiddio Ysgolion: Ysgol Heronsbridge a Harwood House - Caffael

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | Roedd y penderfyniad hwn wedi cael ei eithrio. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 24 Mehefin 2025 |

Terfynwyd y cyfarfod yn 15:30